Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**City and County of Swansea**

## Minutes of the Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 13 Chwefror 2023 at 3.00 pm**

**Present**: Councillor L R Jones (Cadeirydd) Presided

| **Councillor(s)** | **Councillor(s)** | **Councillor(s)** |
|---|---|---|
| S Joy | S E Keeton | J D McGettrick |
| A J O'Connor | | |

| **Co-opted Member(s)** | **Co-opted Member(s)** | **Co-opted Member(s)** |
|---|---|---|
| Elizabeth Lee | | |

**Other Attendees**
Robert Smith

**Officer(s)**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Kelly Small | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Apologies for Absence**
Councillor(s): A M Day, B Hopkins, S M Jones a/ac F D O'Brien
Co-opted Member(s): Beth Allender

---

### 37 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim

### 38 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

### 39 Cofnodion

Cytunodd y Panel ar y cofnodion o gyfarfodydd blaenorol.

### 40 Llythyr

Derbyniodd y Panel y llythyr gan Aelod y Cabinet a oedd yn ymwneud â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr a’r llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr.

## 41 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 42 Craffu ar y gyllideb flynyddol: am ei bod yn ymwneud â materion br addysg

Diolchodd y Panel i Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu, y Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg am ddod i'r cyfarfod i drafod y Gyllideb Flynyddol fel y mae'n ymwneud â materion addysg. Darparwyd cyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Y Strategaeth Cyllideb Tymor Canolig
- Rhagor o negeseuon allweddol ar gyfer ymgynghoriad 2023-2024
- Addysg - Cynigion heb eu dirprwyo

## 43 Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion

Ar ôl y drafodaeth gyda'r Aelod Cabinet a Swyddogion ar y Gyllideb Flynyddol mewn perthynas ag Addysg, cytunodd y Panel ar yr adborth canlynol. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn ymateb y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2023.

- **Cynnydd yn y gyllideb** Rydym yn croesawu'r cynnydd yn y gyllideb eleni o £202 i £215 miliwn ond rydym yn cydnabod na fydd hyn yn ddigon i leddfu'r holl bwysau ariannol ar gyllidebau ysgolion. Fodd bynnag, mae'r gyllideb i'w chroesawu'n fawr ac rydym yn cydnabod mai dyma'r dyraniad arian parod mwyaf ar gyfer unrhyw adran o'r cyngor yn Abertawe, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod addysg yn brif flaenoriaeth.
- **Cronfeydd wrth gefn ysgolion** Clywsom fod y cronfeydd wrth gefn ar gyfer ysgolion wedi gostwng yn sylweddol a'u bod bellach tua £11 miliwn ar draws ysgolion yn Abertawe. Mynegwyd pryder am y ffaith fod cronfeydd wrth gefn rhai ysgolion yn uchel tra bod gan eraill gronfeydd wrth gefn isel iawn ac felly bydd angen cymorth a chefnogaeth ar yr ysgolion hyn.
- **Pwysau ariannol** Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion dan lawer o bwysau oherwydd nifer o gostau nad ydynt yn gwbl hysbys ar hyn o bryd eleni yn 2023/24, ac yn wir 2024/25, er enghraifft ADY, cofrestr gyffredinol prydau ysgol am ddim, costau tanwydd ac ynni, codiadau cyflog athrawon etc.
- **Pwysau ar leihau'r gyllideb ar gyfer prydau ysgol am ddim** Rhaid sicrhau nad oes unrhyw golled o ran ansawdd na safon y prydau ysgol a ddarperir a'n nod ddylai fod i brynu'n lleol.

## 44 Cynllun Gwaith

Derbyniodd y Panel y rhaglen waith gan nodi y bydd y cyfarfod nesaf ar 16 Mawrth 2023 yn anffurfiol gan y bydd yn rhan o ymweliad safle ag Uned Cyfeirio Disgyblion Maes Derw.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40 pm

**Chair**